SUL CYFFREDIN 8

2 SAMUEL 1:1, 17-27; SALM 130;
2 CORINTHIAID 8:7-15; MARC 5:21-43

● **Gweddi agoriadol**
Dduw'r cread
a chreadigrwydd,
bydd di'r ysbrydoliaeth
yn ein haddoli heddiw.
Paid â gadael iddo fod yn ddiflas
yn ei gyfarwydd-deb,
ond yn fyw
o achos dy fflam.
Dduw'r cread
a chreadigrwydd,
bydd di'r ysbrydoliaeth
yn ein haddoli heddiw.

● **Moliant**
Dduw hollbresennol,
cerddi gyda ni
drwy amserau da
a drwg,
ar ben y mynydd
a llawr y dyffryn;
dy gamau ein harweiniad,
dy ddwylo ein cynhaliaeth.

Dduw hollbresennol,
rwyt gyda ni
pan fo bywyd yn esmwyth
neu yn arw,
yn gyfan
neu'n doredig;
dy iachâd ein gobaith,
dy gyffyrddiad ein dyhead.

Ofnwn ni ddim byd
os wyt ti gyda ni,
Dduw hollbresennol.

● **Cyffes**
Dduw iacháu,
down atat ti
i geisio cyfanrwydd
corff a meddwl,
ac eto mor aml methwn ddeall
beth y gofynnwn amdano.
Mae iachâd yn fwy
na diffyg poen,
a llawnder yn fwy
na diffyg ofn.

Cynorthwya ni i ddwyn atat
nid ein poen ein hunain un unig
ond y poen a achoswn hefyd,
nid ein clwyfau yn unig
ond y cerrig a daflwn hefyd,
nid ein hafiechyd yn unig
ond ein hanghysur hefyd.

Dduw iacháu,
cymer ein darnau,
popeth sy'n achosi poen i ti,
a gwna ni'n gyfan.

● **Diolch**

Ynot ti yn unig
y gallwn fod yn hyderus;
ynot ti yn unig
y gallwn roi ein ffydd,
gan mai ynot ti yn unig y mae
maddeuant
a gwaredigaeth
o bopeth a wnaethom
neu na wnaethom.
Ynot ti yn unig y mae
eneinio,
grymuso
a phopeth ydym bellach.

Ynot ti yn unig y gallwn
fod yn hyderus,
a ninnau wedi teithio ymhell
gyda thi, Arglwydd,
a phara i wneud hynny,
nes yng nghyflawnder yr amser
y cawn dy weld wyneb yn wyneb.

Rhown ddiolch i ti am dy gariad di-ball
a'th ffyddlondeb.